



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Ymddiriedolaeth GIG
Prifysgol Felindre
Velindre University
NHS Trust

Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre

Rhagoriaeth Ddigidol: Ein Strategaeth 2023 - 2033

Galluogi Gwasanaethau Yfory... Heddiw



Cynnwys

Rhagair01

Rhagoriaeth Ddigidol: Ein Strategaeth02

Beth Mae Digidol yn ei Olygu i Chi?

Ein Taith Hyd Yma

Edrych i 2028: Ein Trawsnewid Digidol04

Ein Gweledigaeth Ddigidol06

Ein Themâu08

Sicrhau ein sylfeini

Cynhwysiant digidol

Gwasanaethau a yrrir gan ddirnadaeth

Systemau diogel a sicr

Sefydliad digidol

Gweithio mewn partneriaeth

Mesur Ein Llwyddiant16

Rhagair

Croeso cynnes iawn i ‘Rhagoriaeth Ddigidol’, gweledigaeth ddigidol a strategaeth Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre. Rydym yn falch iawn o’r gofal a’r gwasanaethau rhagorol a ddarparwn i gleifion, rhoddwyr, ystod eang o bartneriaid a’n hanes o lwyddiant.

Rydym yn poeni’n fawr am y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu ac yn gweld yn glir y gwahaniaeth y gall technoleg ddigidol a mewnwelediad ei wneud i’n cefnogi i wella ansawdd, diogelwch, profiad a chanlyniadau’r gwasanaethau a ddarparwn yn barhaus.

Rydym yn awyddus i adeiladu ar ein gorffennol, wrth i ni edrych i’r dyfodol, ac mae strategaeth ‘Cyrchfan 2033’ yr Ymddiriedolaeth yn nodi cyfeiriad clir ar gyfer y sefydliad dros y blynyddoedd i ddod, wrth inni geisio cyflawni ein pwrpas a’n gweledigaeth.

Ein Pwrpas:

Gwella Bywydau

Ein Gweledigaeth:

Gofal Ardderchog,
Dysgu Ysbrydoledig,
Pobl Iachach

Rydym wedi nodi pum nod strategol y byddwn yn canolbwyntio arnynt dros y blynyddoedd i ddod. Credwn y bydd cyflawni'r nodau hyn yn gweld yr Ymddiriedolaeth yn darparu gwasanaethau i gleifion, rhoddwyr a'n partneriaid sy'n cymharu â'r gorau yn y DU ac Ewrop.

Mae hwn yn gyfnod cyffrous i'r Ymddiriedolaeth, gydag ystod eang o gyfleoedd o'n blaenau. Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd technoleg ddigidol, gwasanaethau digidol, gwybodaeth a dirnadaeth dda wrth ddarparu gwasanaethau diogel o ansawdd uchel a'n nodau hirdymor.

Un o gydrannau pwysicaf ein llwyddiant yn y dyfodol fydd pa mor dda yr ydym yn croesawu'r cyfleoedd y mae gwasanaethau digidol yn eu cynnig. Mae 'Rhagoriaeth Ddigidol' yn nodi ein strategaeth ar gyfer y deng mlynedd nesaf a bydd yn ein helpu i ddefnyddio technoleg a dirnadaeth i gefnogi ein gweledigaeth o ragoriaeth.

Nod Strategol 1:

Eithriadol o ran ansawdd,
diogelwch a phrofiad

Nod Strategol 2:

Darparwr o fri rhyngwladol o
wasanaethau clinigol eithriadol
sydd bob amser yn bodloni
disgwyliadau ac yn rhagori arnynt

Nod Strategol 3:

Sefydliad disglair ar gyfer
ymchwil, datblygu ac arloesi
yn ein meysydd blaenoriaeth

Nod Strategol 4:

Ymddiriedolaeth Prifysgol
sefydledig sy'n darparu
gwybodaeth a dysg werthfawr
iawn i bawb

Nod Strategol 5:

Sefydliad cynaliadwy sy'n
chwarae ei ran i greu dyfodol
gwell i bobl ledled y byd



Rhagoriaeth Ddigidol: Beth Mae Digidol yn ei Olygu i Chi?

Gall digidol olygu amrywiaeth o bethau gwahanol i amrywiaeth o wahanol bobl. Ond beth mae'n ei olygu i'n rhoddwyr, cleifion, gofalwyr a staff:

Mae technoleg a gwasanaethau digidol yn rhoi'r cyfle i wneud newid gwirioneddol yn y berthynas rhwng gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol, y bobl rydym yn eu gwasanaethu a'r gwasanaethau gofal iechyd a ddarparwn. Bydd dylunio gwasanaethau mewn partneriaeth â chleifion a rhoddwyr yn ein galluogi i ail-ddychmygu gwasanaethau a darparu profiad mwy personol a alluogir gan dechnoleg ddigidol.

Mae'n bwysig inni ddeall beth mae'n ei olygu i bob grŵp. Beth mae digidol yn ei olygu i'r canlynol:

Rhoddwr Gwaed

- Gallaf reoli fy apwyntiadau rhoi wrth symud
- Gallaf weld fy hanes rhoddion a deall i ble mae fy rhodd wedi mynd
- Mae'n caniatáu i mi gadw fy manylion yn gyfredol
- Mae'n fy helpu i nodi sesiynau rhoi yn agos at fy lleoliad presennol
- Mae'n fy nghyfeirio at wasanaethau eraill a allai fod yn ddefnyddiol i mi
- Mae'n gadael i mi weld y gwahaniaeth y mae fy rhodd yn ei wneud

Claf Canser

- Mae'n rhoi gwybodaeth i mi am fy iechyd a'm gofal, ac yn fy nghefnogi i wneud penderfyniadau mwy gwybodus ynghylch yr hyn sydd ei angen arnaf o'r gwasanaethau a ddarperir gennyh

- Mae'n rhoi mwy o ddewis i mi o ran ble neu sut rwy'n cyrchu'r gwasanaethau sydd eu hangen arnaf
- Mae'n fy nghyfeirio at wasanaethau eraill a allai fod yn ddefnyddiol i mi
- Mae'n darparu gwybodaeth ar gyfer teuluoedd a gofalwyr sy'n fy nghefnogi fel claf sy'n derbyn gofal

Aelod o Staff a Phartneriaid Gofal Iechyd eraill


- Mae'n gwneud fy rôl yn haws ac yn fwy effeithlon
- Mae'n fy nghysylltu â'm tîm a'm sefydliad
- Mae'n rhoi hyblygrwydd i mi o ran sut a ble rydw i'n gweithio
- Mae'n fy ngalluogi i arloesi ac archwilio ffyrdd gwell o wneud fy swydd
- Mae'n rhoi'r wybodaeth gywir i mi ar yr amser cywir
- Mae'n fy ngalluogi i rannu gwybodaeth ar draws sefydliadau i wella gofal

Rydym yn cydnabod bod a wnelo trawsnewid a newid digidol gymaint â phobl a diwylliant ein sefydliad ag y mae i'w wneud â'r technolegau yr ydym yn dewis eu defnyddio. Gyda hyn mewn golwg, pan ddywedwn 'digidol' yn y strategaeth hon, golygwn y diffiniad a ganlyn, a fabwysiadwyd yn eang yn sector cyhoeddus y DU:

"Cymhwyso diwylliant, prosesau, modelau busnes a thechnolegau oes y rhynggrwyd i ymateb i ddisgwyliadau uwch pobl"

Ein Taith Hyd Yma

Mae Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre wedi adeiladu hanes balch o ddatblygiadau sylweddol mewn gwasanaethau digidol sydd wedi gwneud gwahaniaeth i ansawdd, diogelwch a phrofiad defnyddwyr y gwasanaethau a ddarparwn.




Ein gweledigaeth: sicrhau bod profiad cleifion, rhoddwyr a staff o wasanaethau digidol yr un fath â'n gofal, sef rhagorol.

Mae'r cyflawniadau hyn dros y pum mlynedd diwethaf wedi gosod sylfeini, sgiliau a galluoedd cryf i gefnogi'r cam nesaf o drawsnewid digidol ar draws yr Ymddiriedolaeth.

Edrych i 2033: Ein Trawsnewid Digidol

Er mwyn gwireddu ein gweledigaeth rydym wedi gosod nifer o themâu a fydd yn ein cefnogi i sicrhau dyfodol cysylltiedig, personol a chynaliadwy sy'n canolbwyntio ar bobl.



Thema 1:

Sicrhau Ein Sylfeini

Byddwn yn grymuso ein staff i gael mynediad at y wybodaeth, yr offer a'r dechnoleg o ansawdd uchel sydd eu hangen arnynt 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos i ddarparu gwasanaethau diogel o ansawdd uchel.


Ein hamcanion yw:

- Cynnal caledwedd a meddalwedd gwydn ar draws y sefydliad
- Datblygu a gweithredu cyfres o wasanaethau cymwysiadau sy'n gwneud y mwyaf o fanteision dull systemau integredig Cymru gyfan
- Darparu systemau a gwasanaethau digidol sydd wedi'u cynllunio gyda gallu i ryngweithredu ac integreiddio fel gofyniad craidd

Byddwn yn:

- Datblygu technolegau 'addas ar gyfer y dyfodol' sy'n gydnerth gyda hybrid o gwmwl a chanolfan ddata/defnyddio ar y safle
- Dylunio pob system o amgylch yr egwyddorion cenedlaethol (e.e. agored a rhyngweithredol) i gefnogi integreiddio ar draws sefydliadau
- Gweithredu amrywiaeth o systemau cenedlaethol i gefnogi dull gweithredu unwaith i Gymru, gan gynnwys Porth Clinigol Cymru, System Gweinyddu Cleifion Cymru, Systemau Gwybodaeth Labordy Cymru a rhagnodi electronig
- Datblygu'n barhaus a gwneud y mwyaf o fuddion ein systemau busnes presennol, gan gynnwys System Gyfrifiadurol y Sefydliad Gwaed a'r Cofnod Gofal Iechyd Digidol

- Gweithredu atebion lleol sy'n berthnasol ac yn briodol i anghenion y boblogaeth rydym yn ei gwasanaethu
- Cryfhau ein trefniadau blaenoriaethu a llywodraethu i wneud y mwyaf o fuddion unrhyw fuddsoddiad mewn gwasanaethau digidol a thechnoleg
- Dylunio a gweithredu strategaeth newydd ar gyfer y gwasanaethau teleffoni a ddefnyddir ar draws yr Ymddiriedolaeth, gan gynnwys mabwysiadu gwasanaethau teleffoni digidol newydd megis y rhai sydd ar gael trwy Microsoft Teams



Thema 2:

Cynhwysiant Digidol

Byddwn yn cefnogi pobl i ddod yn fwy hyderus yn ddigidol, eu cynnwys a bod yn fwy cysylltiedig.

Ein hamcanion yw:

- Cysylltu ein rhoddwyr, cleifion, gofalcwyr a staff yn ddigidol â'n gwasanaethau 24/7
- Rhoi gwybodaeth syml a hygyrch yn nwylo cleifion a rhoddwyr i'w galluogi i wneud gwell penderfyniadau am y gwasanaethau a'r cymorth sydd eu hangen arnynt
- Cyflwyno technoleg sy'n cefnogi darparu mwy o wasanaethau gartref ac mor lleol â phosibl
- Darparu technoleg i'n staff weithio o ystod eang o leoliadau ledled Cymru
- Lleihau allgáu digidol pobl ledled Cymru

Byddwn yn:

- Creu llwyfan integredig newydd ar gyfer ein gwasanaethau cleifion a rhoddwyr digidol gan gynnwys darparu cyfres o gymwysiadau symudol ar gyfer gwasanaethau clinigol ac anghlinigol
- Gweithio gyda chleifion, rhoddwyr a thrydydd partïon i archwilio cyfleoedd i ddatblygu cyfres o apiau y gellir eu plygio i mewn neu allan yn hawdd, gan ddarparu mathau newydd o werth
- Gweithio gyda'r rhaglenni lleol a chenedlaethol i sicrhau bod gan staff ddyfeisiau i'w defnyddio unrhyw bryd ac unrhyw le, a mynediad at weithio symudol
- Gweithredu Microsoft 365 yn llawn a gwireddu buddion gweithio cysylltiedig

- Gweithredu gofynion digidol y rhaglenni Trawsnewid Gwasanaethau Canser, Dyfodol Felindre a Dyfodol Gwaed a Thrawsblannu
- Cynnwys, yn awtomatig, egwyddorion cynhwysiant digidol yn ein gweithgareddau o ddydd i ddydd a gwneud penderfyniadau drwy:
 - datblygu rhaglen cynhwysiant digidol i gefnogi cleifion, rhoddwyr, gwirfoddolwyr a'r cyhoedd i gael mynediad i'n gwasanaethau (gan gynnwys hyfforddiant a darpariaeth o lechi/ dyfeisiau ac ati)
 - cyflawni ein rhaglen waith yn y Fenter Cymunedau Digidol
 - rhannu a dysgu o arfer gorau gyda Chymunedau Digidol Cymru a phartneriaid eraill yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector, i gydgysylltu ein hymagwedd i gael yr effaith fwyaf
 - ymrwymo i'r addewidion allweddol a nodir yn Siarter Cynhwysiant Digidol Cymunedau Digidol Cymru
- Adeiladu partneriaethau lleol a chenedlaethol i rannu syniadau a chydlynu gweithgareddau gydag eraill yn eu hardal

Thema 3:

Gwasanaethau a Yrrir gan Ddirnadaeth

Byddwn yn gwneud y defnydd gorau o ddata a gwybodaeth i'n helpu i wneud penderfyniadau gwybodus sy'n cael eu llywio gan ddirnadaeth o fewn y sefydliad ac mewn cydweithrediad â phartneriaid ar draws ffiniau sefydliadol.

Ein hamcanion yw:

- Datblygu diwylliant sy'n cael ei lywio gan ddata ac sy'n cael ei arwain gan ddirnadaeth a gwneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth o fewn y sefydliad ar bob lefel

Byddwn yn:

- Gwella ansawdd ein data trwy lywio safonau data, nodi hyrwyddwyr data a gwella protocolau rhannu data
- Gweithio gydag Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW) i amlhau manteision yr Adnodd Data Cenedlaethol (NDR) a'i integreiddio â'n Hadnodd Data Lleol a Chlinigol (LDR/CDR)
- Datblygu gwasanaeth cudd-wybodaeth sy'n cyd-fynd â busnes a all:
 - democrateiddio data, gan gefnogi staff rheng flaen i fod yn berchen arno a'i ddadansoddi
 - darparu ystod o wybodaeth safonol gan ddefnyddio PowerBI ac offer eraill
 - darparu modelu capasiti a galw
 - darparu dadansoddiad rhagfynegol a modelu gwasanaeth
 - darparu dadansoddeg a gwybodaeth uwch i gefnogi cynllunio, gwella ac ailgynllunio gwasanaethau
- Sefydlu rhaglen waith a fydd yn ceisio adnabod cyfleoedd pellach yn y meysydd canlynol:

- cudd-wybodaeth weithredol a chlinigol
 - offer ar gyfer gwybodaeth a dirnadaeth wedi'u halinio, gan gynnwys modelau efelychu gwasanaeth-benodol
 - gwreiddio methodoleg ac offer ymchwil gweithredol i alluogi modelu llwybr system gyfan drwy gyfrwng y LDR/CDR i gefnogi cynllunio gwasanaethau, gwella a gofal iechyd sy'n seiliedig ar werth awtomeiddio prosesau
 - deallusrwydd artiffisial
 - rhannu gwybodaeth, dysgu a sgiliau i esblygu o adrodd i ddarganfod
 - gwreiddio egwyddorion a phrosesau gofal iechyd sy'n seiliedig ar werth
- Hwyluso diwylliant agored sy'n annog cydweithwyr i herio a chwestiynu'r ffyrdd o wneud pethau drwy ddefnyddio data i ysgogi gwelliannau i wasanaethau a mesur canlyniadau
 - Darparu hyfforddiant a chefnogaeth i gydweithwyr mewn ystod o feysydd gan gynnwys safonau data, dadansoddi data a defnyddio offer a thechnegau dadansoddol
 - Adeiladu partneriaethau gyda'r byd academiaidd i ddatblygu dulliau newydd o hyfforddiant ac addysg mewn gwyddor data ar bob lefel o'r sefydliad
 - Darparu cyfleoedd ar gyfer astudiaethau ymchwil gyda phrifysgolion lleol, gan gynnig cyfle i fyfyrwyr MSc a PhD ddefnyddio ein data i ddarparu mewnwelediadau a datblygu ymchwil sy'n cael effaith
 - Gweithredu adroddiadau canlyniadau cysylltiedig fel Mesurau Canlyniadau a Adroddir gan Gleifion (PROMS) a Mesurau Profiad a Adroddir gan Gleifion (PREMS)

Thema 4:

Systemau Diogel a Sicr

Byddwn yn diogelu ein data a'n gwybodaeth drwy ddull effeithiol o ddiogelu data cyffredinol a seiberddiogelwch, gan weithio ar y cyd â'r Uned Gwydnwch Seiber a'r Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol.

Ein hamcanion yw:

- Parhau i gydymffurfio â pholisïau cenedlaethol a'r Systemau Rhwydwaith a Gwybodaeth (NIS) a Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR)
- Cynyddu ymwybyddiaeth a hyfforddiant mewn egwyddorion seiberddiogelwch a llywodraethu gwybodaeth
- Lleihau'r risg o dorri rheolau seiberddiogelwch

Byddwn yn:

- Gweithredu ein cynllun cyflawni strategol ar gyfer seiberddiogelwch
- Datblygu a phrofi parhad busnes seiberddiogelwch a chynlluniau adfer ar ôl trychineb
- Parhau i ddatblygu ymwybyddiaeth a sgiliau seiber ein cydweithwyr
- Cynnal ymarferion cyfnodol wedi'u hefelychu ar ymosodiadau seiber
- Sicrhau bod yr Ymddiriedolaeth yn cydymffurfio'n llawn â'r rheoliadau Systemau Rhwydwaith a Gwybodaeth (NIS)
- Gweithredu'r Ateb Rheoli Agored i Niwed cenedlaethol (VMS)

- Sicrhau bod pob dyfais ar draws yr Ymddiriedolaeth yn defnyddio rheolaeth glytiau awtomataidd
- Datblygu polisïau a gweithdrefnau newydd i gefnogi ein cynllun cyflawni diogelwch
- Gweithredu rheolaethau newydd ar gyfer sganio cyfryngau symudadwy trydydd parti
- Galluogi amddiffyniadau system pellach ac analluogi protocolau cyfathrebu etifeddol

Thema 5:

Sefydliad Digidol

Byddwn yn gweithio gyda chleifion, rhoddwyr, staff a phartneriaid i greu diwylliant gwasanaeth sy'n croesawu'r defnydd o dechnoleg ddigidol i gynnig gwasanaethau o'r ansawdd gorau.

Ein hamcanion yw:

- Creu arweinyddiaeth ddigidol gref ar bob lefel o'r sefydliad
- Adeiladu tîm digidol medrus iawn sydd â'r capasiti a'r gallu i gyflawni ein huchelgeisiau digidol
- Creu gweithlu llythrennog yn ddigidol sy'n croesawu'r defnydd o dechnoleg i wella'r gwasanaethau a ddarparwn
- Dod yn sefydliad di-bapur

Byddwn yn:

- Cryfhau ein rhaglen addysg a hyfforddiant digidol o 'ward/labordy i'r bwrdd' i wella gwybodaeth a dealltwriaeth
- Gweithio gyda'r Academi Dysgu Dwys a phartneriaid eraill i ddatblygu cymhwysedd digidol craidd y gweithlu yn unol â'u rôl
- Nodi amrywiaeth o arweinwyr digidol a'u cefnogi i ennill cymwysterau digidol/ trawsnewid e.e. graddau, MSc
- Meithrin capasiti a gallu'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Digidol i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r map ffordd trawsnewid digidol

- Creu ffyrdd syml o rannu dysgu a gwybodaeth trwy gymunedau ymarfer, e.e. 'cinio a dysgu', amgylcheddau pwll tywod ac adnoddau ar-lein y gall staff eu defnyddio i ennill sgiliau a gwybodaeth
- Hyrwyddo digidol yn weithredol fel proffesiwn o fewn proffesiynau clinigol ac anghlinigol eraill
- Gweithredu'r egwyddor o 'Dewch â'ch Dyfais Eich Hun' i alluogi staff i gael mynediad at wasanaethau digidol yr Ymddiriedolaeth gan ddefnyddio technoleg symudol o'u dewis
- Datblygu cynllun i drosglwyddo i sefydliad di-bapur, tra'n sicrhau bod opsiynau nad ydynt yn rhai digidol yn parhau i fod ar gael i'r rhai na allant ddefnyddio gwasanaethau digidol



Thema 6:

Gweithio Mewn Partneriaeth

Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid i wneud Cymru'n wlad sy'n denu arloeswyr i ddysgu am ragoriaeth ddigidol.

Ein hamcanion yw:

- Adeiladu rhwydwaith o bartneriaid a galluoedd sy'n ein galluogi i wneud y mwyaf o'r buddion o ymchwil, datblygu ac arloesi
- Dod yn esiampl o fewn GIG Cymru ar gyfer arloesi digidol

Byddwn yn:

- Datblygu cyfres o bartneriaid technoleg i gefnogi pob agwedd ar ein strategaeth ddigidol
- Datblygu rhaglen(ni) gwaith cytûn gyda phrifysgolion lleol mewn meysydd a nodwyd o ddiddordeb cyffredin i ysgogi'r defnydd a'r gwerthusiad o dechnoleg ddigidol mewn gofal iechyd
- Recriwtio myfyrwyr a phersonél academiaidd i yrru ein cynlluniau ymchwil, datblygu ac arloesi ar gyfer technoleg ddigidol yn eu blaen
- Datblygu Canolfan Gydweithredol ar gyfer Dysgu, Technoleg ac Arloesi i fod yn bwynt cyswllt ffisegol a rhithwir i'r holl bartneriaid a rhanddeiliaid gydweithio ac arloesi

- Sefydlu partneriaethau sy'n ein galluogi i roi cysyniadau technoleg 'glyfar' ar waith yn ein hystâd ddigidol, gan gynnwys Gwasanaeth Gwaed Cymru (Llantrisant), y Ganolfan Loeren Radiotherapi a Canolfan Ganser Felindre newydd. Bydd hyn yn caniatáu inni rannu gwybodaeth, arloesi a dysgu ledled Cymru
- Dod yn aelod gweithgar o Gynghrair Cynhwysiant Digidol Cymru, gan weithio ar y cyd â sefydliadau ledled Cymru i symud yr agenda cynhwysiant digidol yn ei blaen yng Nghymru

Sut Bydd Technoleg Ddigidol yn Gwneud Gwahaniaeth i’n Cleifion a’n Rhoddwyr?

Stori Rachel: Claf Canser

Mae Rachel yn cael ei chyfeirio atom gan ei bwrdd iechyd lleol ar ôl llawdriniaeth ar gyfer canser y fron. Mae Rachel yn trefnu ei hapwyntiad cyntaf i weld ymgynghorydd ar-lein gan ddefnyddio ap. Mae hi’n archebu ei maes parcio ar-lein ac yn anfon e-bost at ei hymgynghorydd ar ein platfform gyda’r cwestiynau sydd ganddi cyn ei hapwyntiad cyntaf. Gall gael mynediad at ei chofnodion meddygol a gwybodaeth ac mae’n defnyddio ein ap i ddweud wrthym sut mae’n teimlo cyn ei hapwyntiad cyntaf fel claf allanol. Mae hyn yn ein galluogi i’w chefnogi gan ei bod yn teimlo’n bryderus a rhoi gwybodaeth ddefnyddiol iddi a mynediad at wasanaethau eraill a all fod o gymorth e.e. cysylltiadau gwasanaethau therapi, gwybodaeth ariannol ac ati.

Mae Rachel yn cyrraedd ar gyfer ei hapwyntiad cyntaf gyda’r ymgynghorydd, yn parcio yn y lle a neilltuwyd iddi ac yn gwirio gan ddefnyddio’r ddesg gofrestru ddigidol. Mae hyn yn ein rhybuddio ar unwaith ei bod wedi cyrraedd ac yn helpu i sicrhau ei bod yn cael ei gweld mewn pryd. Mae Rachel yn defnyddio ap Felindre ar ei horiawr glyfar i gael mynediad at y swyddogaeth canfod y ffordd, gan ei helpu i ddod o hyd i’r caffeteria a’r adran cleifion allanol yn hawdd.

Mae gwybodaeth glinigol Rachel a’r data a rannodd gyda ni wrth aros i weld yr ymgynghorydd i gyd ar gael i Dr Davies pan fydd yn eistedd i lawr gyda hi ar gyfer yr ymgynghoriad. Mae Rachel a Dr Davies yn cytuno ar gynllun triniaeth sy’n cynnwys therapi gwrth-ganser systematig radiotherapi ynghyd ag ymwybyddiaeth ofalgar a chefnogaeth gan Maggie’s.

Mae Rachel yn lawrlwytho ein ap ar ei dyfais oriawr wisgadwy ac iPad ac mae hyn yn caniatáu iddi fonitro ei hiechyd a rhannu ei data gyda ni ar nifer o arwyddion hanfodol (gwaed, tymheredd, cyfradd curiad y galon) yn ogystal â diet a phatrymau cysgu. Mae ein systemau deallusrwydd artiffisial yn monitro iechyd Rachel o bell 24/7 i sicrhau nad oes unrhyw bryderon tra ei bod yn aros i ddechrau ei thriniaeth.

Os oes unrhyw beth yn peri pryder, mae’r monitro o bell yn sbarduno e-bost awtomatig at Dr Davies a’r tîm clinigol sy’n adolygu ei sefyllfa ac yn rhoi arweiniad clinigol iddi. Mae gan Rachel hefyd fynediad fideo-alw i’n timau i fynd i’r afael ag unrhyw gwestiynau neu bryderon sydd ganddi yn ystod ei hamser gyda ni. Mae ganddi hefyd fynediad trwy ein platfformau i’n Cymuned Gefnogol, sy’n cynnwys

cleifion a theuluoedd presennol a blaenorol sy’n darparu cefnogaeth i’w gilydd trwy brofiadau a rennir.

Yn dilyn ei hapwyntiad cyntaf a thriniaeth mae Rachel yn mynd adref, ac rydym yn cadw mewn cysylltiad trwy’r ap. Mae Rachel yn parhau i fonitro ei harwyddion hanfodol a gwybodaeth iechyd ar yr ap, ac yn rhannu ei data i ni eu monitro.

Yn anffodus, mae Rachel yn dechrau teimlo’n sâl am 3am ac yn galw ein cynorthwydd deallus 24/7 ar gyfer cymorth sy’n rhoi’r wybodaeth sydd ei hangen arni. Mae hefyd yn trefnu galwad rithwir gyda’i Nyrs Canser Arbenigol y diwrnod canlynol. Mae Rachel yn trafod ei phryderon gyda’i Nyrs Canser Arbenigol y diwrnod wedyn ac maen nhw’n cytuno bod angen iddi siarad ag oncolegydd yn lleol yng nghyfleuster Felindre yn Ysbyty Athrofaol Cymru ar gyfer archwiliad pellach. Maen nhw’n trefnu apwyntiad ar-lein ac mae Rachel yn siarad yn y prynhawn â Dr Davies sy’n rhagnodi rhai gwrthfotigau.

Mae Rachel yn parhau i deimlo’n sâl ac mae Dr Davies yn penderfynu ei derbyn i’r Ganolfan Ganser i’w hadolygu ymhellach. Mae gan Rachel ei hystafell ei hun ac mae’n defnyddio’r iPad i newid y golau a’r tymheredd yn ei hystafell, archebu bwyd a chadw mewn cysylltiad â theulu a ffrindiau. Mae hi’n dal i rannu ei data gyda ni (pwysedd gwaed, oriau cysgu ac ati) a phan fydd Dr Davies yn ymweld â hi mae’r holl wybodaeth yma ar gael yn syth ar iPad Dr Davies mewn amser real. Mae hyn yn caniatáu i achos y broblem gael ei ddiagnosisio’n gyflym heb unrhyw oedi diangen a chaiff yr haint ei drin yn gyflym.

Mae Rachel yn dychwelyd adref ac yn parhau i fonitro ei hiechyd ar ei horiawr glyfar/iPad yr ydym yn ei fonitro o bell. Mae Rachel yn parhau i siarad â’r tîm clinigol ac yn gofyn unrhyw gwestiynau sydd ganddi wrth dderbyn ei thriniaeth. Roedd ei thriniaeth yn llwyddiannus, ac mae’n parhau i fonitro ei harwyddion hanfodol gan ddefnyddio ein ap ac yn rhannu ei data gyda ni wrth iddi barhau i wella. Bydd ein tîm clinigol yn parhau i fonitro adferiad Rachel gan ddefnyddio’r data y mae’n ei ddarparu trwy ei horiawr glyfar/iPad gan defnyddio ein systemau deallusrwydd artiffisial. Bydd hyn yn ein hysbysu ar unwaith am unrhyw bryderon. Mae hi hefyd yn gyfrannwr cyson i’r Gymuned Gefnogol ac yn cyrchu ystod o wasanaethau lleol eraill trwy’r arwyddion ar ein platfform megis y gampfa leol, côr a llwybrau cerdded.

Stori Malik: Rhoddwr Gwaed

Mae Malik yn byw yng ngorllewin Cymru ac yn ei flwyddyn gyntaf yn y brifysgol. Nid yw erioed wedi rhoi gwaed, ond soniodd ffrind wrtho am hyn wrth sgwrsio dros ginio.

Chwiliodd Malik ar ei ffôn am roi gwaed a chlicio ar y ddolen Gwasanaethau Gwaed a Thrawsblannu. Aethpwyd ag ef i’n platfform a roddodd ystod eang o wybodaeth a fideos iddo ynghylch pam y dylai ystyried rhoi, taith y gwaed a’r ffordd y mae’n newid bywydau pobl.

Roedd Malik eisiau rhagor o wybodaeth felly cliciodd ar y botwm ‘Anfon Mwy o Wybodaeth’ a derbyniodd e-bost a gynhyrchwyd yn awtomatig yn cynnig cyfle iddo siarad â chynorthwydd deallus 24/7 neu gael sgwrs rithwir gydag un o’n tîm recriwtio. Mae’n mynd ar ein platfform ac yn dewis amser a dyddiad sy’n gyfleus iddo siarad â’n tîm recriwtio i drafod y cyfle ymhellach.

Mae Malik yn ffonio Tracey o’n tîm recriwtio drwy FaceTime ac maent yn trafod amrywiaeth o faterion yr oedd Malik wedi’u nodi mewn e-bost yr oedd wedi’i anfon at Tracey ymlaen llaw. Mae Malik yn penderfynu ei fod am ddod yn rhoddwr gwaed ond mae angen iddo roi o amgylch ei fywyd prysur. Mae’n sefydlu ei ID defnyddiwr ar-lein, yn mewngofnodi i’r ap rhoi gwaed ac yn llenwi’r ffurflen gais rhoddwr ar-lein mewn pum munud.

Rydym yn cynnal yr holl wiriadau angenrheidiol i sicrhau ei bod yn ddiogel iddo fod yn rhoddwr ac rydym yn e-bostio Malik yn ôl gyda’r newyddion da. Mae Tracey yn dilyn gyda galwad FaceTime i ddiolch i Malik am ddod yn rhoddwr. Mae hi hefyd yn sôn bod ein platfform yn cynnig ystod ehangach o wybodaeth a chyfeirio at ystod o wasanaethau lleol eraill y gallai Malik eu gweld yn ddefnyddiol, megis gwybodaeth am fyw’n iach, clybiau lleol, ac amwynderau fel campfeydd, llyfrgelloedd, trafnidiaeth leol ac ati.

Mae Malik yn trefnu ei apwyntiad rhoi gwaed ar-lein gan ddefnyddio ei oriawr glyfar. Mae’n trefnu ei apwyntiad mewn lleoliad sy’n gyfleus iddo ymhen pythefnos ar ôl defnyddio ein platfform i gael mynediad i’r amseroedd bysiau lleol er mwyn sicrhau

ei fod yn gallu mynychu’r clinig rhoi gwaed yn hawdd.

Mae Malik yn cael gwybodaeth am ei apwyntiad yn syth, ac ychydig ddyddiau cyn ei apwyntiad mae’n derbyn e-bost yn gofyn am wybodaeth sy’n ein galluogi i ymgymryd â’r broses sgrinio rhoddwyr cyn iddo gyrraedd ar gyfer ei apwyntiad.

Ar ddiwrnod ei rodd gyntaf, mae Malik yn cael neges destun atgoffa awtomataidd i’w oriawr glyfar cyn ei apwyntiad sy’n cynnwys neges diolch bersonol gan un o’r bobl sydd wedi derbyn gwaed - mae hyn yn atgoffa Malik pam ei fod yn rhoi.

Mae Malik yn cyrraedd y lleoliad rhoddion, yn cofrestru’n ddigidol ac yn aros am ei apwyntiad. Mae’r rhodd mewn clwb chwaraeon lleol, a gall ddefnyddio’r Wi-Fi cyhoeddus am ddim yr ydym wedi gweithio mewn partneriaeth â’r gymuned leol i’w ddarparu. Mae’r Wi-Fi wedi galluogi’r clwb chwaraeon i ganiatáu i blant lleol ei ddefnyddio fel cyfleuster cymunedol o fewn oriau arferol, ac wedi trawsnewid y cyfleoedd i rai o’r plant lleol nad oedd ganddynt fynediad Wi-Fi gartref.

Mae Malik yn rhoi ei beint cyntaf o waed ac mae ein staff yn diolch iddo cyn iddo dychwelyd adref. Mae’n derbyn e-bost gennym ni yn cynnig y cyfle iddo ‘ddilyn taith ei waed’ - yn dangos iddo sut mae’n cael ei brosesu a ble mae’n mynd.

Mewn dau fis, mae Malik yn cael ei neges atgoffa awtomataidd ei fod bellach yn gallu trefnu ei apwyntiad nesaf. Pan yw’n cyrraedd mae’n dweud wrth ein staff ei fod wedi bod yn defnyddio ein platfform i gael gwybodaeth am ffyrdd iachach o fyw, wedi ymuno â’r dosbarth ioga lleol ac yn gwirfoddoli gydag elusen leol yn ei amser hamdden; y cyfan oherwydd yr arwyddion sydd ar gael ar ein platfform.

Mesur Ein Llwyddiant

Sicrhau Ein Sylfeini

- % o ddefnyddwyr yn fodlon gyda'r Ddesg Gwasanaeth Digidol
- % o argaeledd hanfodol y gwasanaeth system TG/amser mynd yn erbyn targedau y cytunwyd arnynt
- % o ddigwyddiadau yr ymatebwyd iddynt o fewn targedau y cytunwyd arnynt
- % o Geisiadau Gwasanaeth a gwblhawyd o fewn targedau y cytunwyd arnynt
- % systemau TG hanfodol sy'n cefnogi mewngofnodi sengl (SSO)

Cynhwysiant Digidol

- % o gleifion/rhoddwyr sy'n credu bod iechyd a lles wedi gwella oherwydd gwasanaethau ar-lein
- % o gleifion/rhoddwyr sy'n ceisio gwybodaeth iechyd/gwasanaeth ar-lein
- % o gleifion yn defnyddio cymwysiadau i fonitro eu hiechyd yn ddigidol
- % o ymgynghoriadau a gynhaliwyd yn rhithiol
- % o roddwyr yn trefnu apwyntiadau ar-lein
- % o gleifion/rhoddwyr yn cael eu hysbysu trwy eu dewis ddull o gyfathrebu (SMS, e-bost, sianeli cyfathrebu cymeradwy eraill)
- defnydd/rhyngweithiadau 'ap' symudol
- % o adeiladau gyda Wi-Fi cyhoeddus am ddim

Gwasanaethau a Yrrir gan Ddirnadaeth

- Cywirdeb ac amseroldeb data o ansawdd
- % o staff yn defnyddio offer dadansoddi busnes lleol ac adroddiadau safonol
- % o ddilysu/cywiriadau data a gyflawnwyd

Gwasanaethau Diogel a Sicr

- % o gydymffurfiaeth â safonau '10 Cam at Seiberddiogelwch' NCSC
- Nifer y digwyddiadau y dylid adrodd amdanynt o dan y Gyfarwydddeb NIS
- Nifer y digwyddiadau parhad busnes TG
- % o gydymffurfiaeth â hyfforddiant statudol a gorfodol ar seiberddiogelwch
- % staff yn clicio ar ymgyrchoedd gwe-rwydo/ymwybyddiaeth

Sefydliad Digidol

- % o wariant yr Ymddiriedolaeth (refeniw a chyfalaf) wedi'i fuddsoddi mewn gwaith digidol
- Oriau/punnoedd wedi'u harbed drwy ddigideiddio/awtomeiddio prosesau papur â llaw
- Nifer yr 'Hyrwyddwyr Digidol' o fewn yr Ymddiriedolaeth
- % o staff sy'n 'hyderus yn ddigidol' (a fesurir trwy archwiliadau achrededig)
- % y sesiynau clinigol/nyrsio/clinigol a nodwyd ar gyfer arweinyddiaeth/datblygiad digidol
- % o staff gyda chymhwyster digidol ffurfiol e.e. BCS, gradd, MSc
- % staff sydd â dyfais symudol
- Nifer y Prentisiaethau Digidol

Gweithio mewn Partneriaeth

- Cyfranogiad mewn grwpiau cenedlaethol/rhanbarthol e.e. AOS
- Nifer o sefydliadau academiaidd yr ydym yn cydweithio'n weithredol â nhw (e.e. myfyrwyr PhD yn ymweld, lleoliadau prifysgol)

Un o themâu craidd Safonau Gwasanaeth Digidol Cymru y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol (CDPS) yw 'gweithio yn agored'. Yn unol â hyn, ac arferion gorau cyfredol, gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am y Strategaeth hon a'n map ffordd digidol trwy ein ffrwd Twitter a blog misol 'DIGIT@LK'. Rydym hefyd yn rhannu newyddion rheolaidd am y gwaith trawsnewid digidol sy'n digwydd yn Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre.

• **Twitter:** [www.twitter.com/VUNHST_Digital](https://twitter.com/VUNHST_Digital) • **'DIGIT@LK' blog:** www.vunhst.wales/digitalk

